

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 3

Key Language

(f)y ngweld i, dy weld, di ei gweld hi, etc

Dyma

Mor + adjective

New words

eiliad	-	second
gwenu	-	to smile
yn gwella	-	improving
yn ara bach	-	slowly
chwyrnu	-	to snore
oherwydd	-	because
diolchgar	-	grateful
disgwyl	-	to wait
bagle	-	crutches
gorwedd	-	to lie
twlu (SW)	-	to throw
eiliad	-	a second
ceir	-	cars
yn feddw	-	drunk
wyth can llath	-	eight hundred yards
yn gwmws (SW)	-	exactly

Main grammatical points

Pronoun Objects

You have come across phrases like y 'mrawd i, dy chwaer di.

You will find that these pronouns can also come before verbs.

Mae e'n y ngweld i	He sees ME
Mae hi'n dy hoffi di	She likes YOU
Dyn ni'n ei nabod hi	We know HER
Ti'n ei gofio fo	You remember HIM
Dach chi'n ein gwahodd ni	You are inviting US
Dwi wedi'ch clywed chi	I've heard you
'Da ni wedi ei prynu nhw	We've bought them.

An important pronunciation point about these pronouns
We have already seen that Fy becomes 'y – y ngweld i

Ei is pronounced as i	i frawd o
Ein as yn	yn ty ni
Eich as ych	ych gweld chi
Ein as yn	yn teulu ni
Eu as i	i clywed nhw

Dramatic verb - Dyma

You have probably come across Dyma as meaning – here's. Dyma'r llaeth – here's the milk
It does serve another important function when someone is reporting about a succession of usually exciting events conveying the past tense in English.

Ro'n i'n gwybod o'r ffordd roedd o'n edrych arna i... A dyma fi'n dweud achos dy fod di wedi blino... A dyma fo'n mynd yn ôl dros y ddamwain

I knew from the way he was looking at me... and I said because you were tired and he went back over the accident.

Note that dyma comes at the beginning of a clause and is followed by a noun or a pronoun.

Mor

An important little word for you to note - MOR.
When MOR comes in front of adjectives it means SO

Roedd e'n cerdded MOR gyflym
He was walking SO quickly

Beth sy MOR ddoniol?
What's so funny

MOR is followed by the Soft mutation

Words ending in ...au

Many words in Welsh end in –AU as in esgidiau.

In conversational Welsh you will notice that the au is generally pronounced - E in South Wales
Cadeirïe – chairs

In North Wales AU is generally pronounced as A
Cadeiria

Useful expressions

Gan bwyll - Steady on

Yn ara bach - Slowly

Chwyrnu fel mochyn - To snore like a pig

Celwydd, celwydd noeth - A lie, a bare faced lie

Alla i ddim peidio poeni - I can't help but worry

Wedi cael llond bol - Had enough - literally - had a guts full

Dwad is the North Wales form for dod – to come

Ydy o'n dwad yma heno?

Is he coming here tonight?

Dallt is the North Wales form for deall – to understand

Yn gwmws – in South Wales means exactly

The form in North Wales is yn hollol

Ysbyty Brynaber: Episode 7

Dic's injuries from the accident were not as serious as first thought. He is recovering on the ward and receiving attention from Wendy.

Jenny is very concerned that she has lied to the police about the accident. She receives a summons from the police

Geirfa

eiliad	-	second
gwenu	-	to smile
yn gwella	-	improving
yn ara bach	-	slowly
chwyrnu	-	to snore
oherwydd	-	because
diolchgar	-	grateful
disgwyl	-	to wait

Golygfa 1

Wendy - Hold on, Dic...

Dic - Gan bwyll, Wendy.

Wendy - Jyst am eiliad...Lift your back a mo...Let's get these pillows straightened out...Gwell fel'na?

Dic - Ydy...Diolch...

Wendy - A shwt ma'r claf?

Dic - Gwell ar ôl eich gweld chi, Nyrs Keating...

Wendy - Smarmy git.

Dic - Pam wyt ti'n gwenu? Mmmm?

Wendy - Dw i ddim yn gwenu...

Dic - Tynna'r goes arall...

Wendy - Dw i ddim...

Dic - Be sy'? Paid a bod yn "mean." Beth yw'r joc...?

Wendy - Dim byd...O.K.?

Dic - Cym on...Ti bron a marw isie chwerthin am rywbeth, alla i weud...Beth sy' mor ddoniol? Wendy - gwed!

Wendy - Ti.

Dic - Beth amdana i?

Wendy - Fan hyn. We still can't get over it. Wythnos gynta ti fel doctor yma - a wham! - peth nesa, ti'n patient with a broken leg...

Dic - Lwcus mod i'n fyw.

Wendy - At least you had first class care on the side of the road...Two so-so doctors and a brilliant, grade A, first class trainee nurse who told everyone - including the ambulance crew what to do...

Dic - Ia, wel...Dw i ddim yn cofio lot...

Wendy - Ti'n cofio sod ol, pal...

Dic - Sod ol, ti'n iawn...

Wendy - Oh oh! I better make a move. Old battle-axe Agnes Rees is coming...Twdl-w.

Agnes - Bore da, Dr Allen...

Dic - Bore da, Sister...

Agnes - A sut ma'n claf ni erbyn hyn?

Dic - Fel rôn i'n dweud wrth Nyrs Keating jyst nawr... Wy wedi teimlo'n well...

Agnes - Ond ma'r goes yn gwella...

Dic - Ydy...Yn ara bach...

Agnes - Dewch i fi weld...

Dic - Aw! Aw!

Agnes - Chi'n cysgu'n weddol ar y ward 'ma?

Dic - Ydw, yn weddol...Ond am y dyn 'na yn y gwely draw fan'co...Mae isie ichi roi peg yn 'i drwyn e...

Agnes - Mr Percy Edwards...Beth? Ydy e'n chwyrnu?

Dic - Odi...Fel mochyn...

Agnes - Allwn ni drin lot o bethe yn y ysbytu 'ma, Dr Allen – ond yn anffodus, 'sdim byd allwn ni 'neud i stopo pobol rhag chwynu.

Golygfa 2

Arwyn - ...na...na 'fory chwaith...ah-uh...na...wy'n gweitho drwy dydd Sadwrn hefyd...ydw, Mam...edrychwch, fe ddo i i'ch nôl chi yn y car bore dydd Sul – ac awn ni ma's i'r Castle Hotel am gino? Beth ych chi'n feddwl o hynny?...Owcidowc...'Na ni 'te...

Jenny - Dw i ddim isio mynd...

Arwyn - Er mwyn Mam.

Jenny - Ma' bob dim er mwyn dy fam.

Arwyn - Jenny! 'Drycha: wy yn deall shwt ti'n timlo...

Jenny - Na, ti ddim.....Yfaist ti ormod ar yr eroplen yn ol o Fflorida...

Arwyn - Edrycha –

Jenny - Plis gad i fi orffen...Plis paid a thorri ar draws trwy'r amsar Arwyn, plis rho gyfla i fi siarad nei di?

Arwyn - Siarada 'te.

Jenny - Pedwar gin an' tonic mawr – ti'n cofio? Ag oherwydd hynny, dwi wedi deud celwydd wrth y polis! Celwydd noeth! Deud mai fi oedd yn dreifio'r car – a ddim ti.

Arwyn - Ac rwy'n ddiolchgar iawn i ti, Jen. 'Sdim isie beco...Bydd popeth yn iawn...A 'ta beth, ddim 'y mai i oedd beth ddigwyddodd. Yffach gols! Richard Allen o'dd reit mas yng nghanol yr hawl...Welest ti'r siap oedd arno fe...?

Jenny - Ac roedd det ti wedi blino hefyd, Arwyn...

Arwyn - Does gan yr idiot 'na neb i'w feio ond fe'i hunan.

Jenny - A wnes i gynnig dreifio fwy nag unwaith.

Arwyn - Sdim isie beco!

Jenny - Alla i ddim peidio! Alla i ddim peidio – reit? Gad hi!

Arwyn - Mam sy' 'na falle.

Jenny - Rheswm da i beidio ateb.

Arwyn - Helo?...le...Ydy, mae hi...Jenny – i ti.

Jenny - Pwy?

Arwyn - Yr heddlu...

Jenny - Beth maen nhw isio?

Arwyn - Gair. Dere. Maen nhw'n disgwl.

Jenny - Helo...Yn siarad...la...Pryd?...Ydw, dw i'n dallt... A beth? Dach chi isio i mi ddod draw i'r orsaf i'ch gweld chi, ia?

Ysbyty Brynaber: Episode 8

Dic is finding his feet again and is attempting to take a few steps. He is discussing the events of the accident with Wendy.

Jenny tells Arwyn of her ordeal at the police station answering difficult questions about the events. She tells her husband that the police have a statement from Wendy Keating which conflicts with her account.

Geirfa

bagle	-	crutches
gorwedd	-	to lie
twlu (SW)	-	to throw
eiliad	-	a second
ceir	-	cars
yn feddw	-	drunk
wyth can llath	-	eight hundred yards
yn gwmws (SW)	-	exactly

Golygfa 1

Wendy - Mae hyn yn ddrwg...

Dic - Beth?

Wendy - Cerdded mor gyflym...ti ddim yn iach....

Dic - Paid â siarad rwtsh...

Wendy - Ti ddim yn barod eto...Ddim heb crutches...

Dic - Dw i ddim angen bagle - Pwy yw'r doctor? Ti ne' fi? Wy 'di gorwedd digon fel ma' hi...A dwi wedi cael llond bol ar fod yn y gwely 'na...

Wendy - Ti'n O.K.?

Dic - Odw...

Wendy - Siwr? You don't sound too O.K. to me...

Dic - Wy'n O.K.

Wendy - Dere inni fynd nol i'r ward...

Dic - Na, na. Awn ni i ben draw'r coridor, at dop y grisie, lawr y grisie ac i'r cantin am cappuchino...

Wendy - Be?

Dic - Jôc.

Wendy - You really shouldn't do this, Dic....

Dic - Mae 'da fi helpar da yn do's e? Ysgwydd i bwyso arni...Fydd dim isie bagle byth...

Wendy - Gam wrth gam 'te...

Dic - Oedd y car 'na'n sbidio, ti'n gwbod...Faint ti'n meddwl rôdd e'n 'neud? Hanner can milltir yr awr? Bownd o fod. Beth ti'n ddweud?

Wendy - You were pissed out of your tiny little skull, pal...Sdim pwynt gweld bai ar neb arall...

Dic - 'Falle ddim. Jyst dweud odw i 'i fod e'n sbidio...

Wendy - You could have killed yourself.

Dic - Ti'n iawn, gallwn i fod wedi lladd dy hun.'Falle taw death wish o'dd e...Pwyse gwaith fan hyn yn y ngyrru i yfed a twlu'n hunan o fla'n y car cynta wy'n weld....

Wendy - Ni gyd dan bwyse.

Dic - Ond rhai ohonon ni'n fwy na'n gilydd.

Agnes - Doctor Allen! Beth chi'n feddwl chi'n 'neud mas o'r ward? Dych chi ddim digon ffrit i gerdded heb fagle 'to...A dyle chi o bawb wbod yn well...!

Dic - Jyst mynd am dro, Sister...

Agnes - Mynd am dro, wir!

Golygfa 2

Arwyn - Wel?

Jenny - Gyrra.

Arwyn - Sut aeth hi?

Jenny - Jyst cer a fi o'ma wnei di?

Arwyn - Beth ofynnodd y polis iti 'te?

Jenny - Bob dim. O'r dechre i'r diwedd. O lle rôn i wedi dreifio'r car...'Maes Awyr Manceinion,' medda fi...'O? Pam fa'no?' Am dy fod ti a fi newydd gyrraedd nol o wylia yn Fflorida. 'Amser da?' 'Do.' Wedyn...drycha, rho eiliad i mi ddwad ata fy hun...

Arwyn - Wedyn beth? Jenny ma' hyn yn bwysig. Dwed...

Jenny - 'Wel,' medda'r plisman,' pam mai chi oedd yn dreifio? Pam ddim Mr Saunders?'

Arwyn - Drat...

Jenny - Rôn i'n gwbod 'i fod o'n mynd i ofyn hynny...Rôn i'n gwybod o'r ffordd oedd o'n edrych arna i...A dyma fi'n dweud 'Achos dy fod ti'n fwy jet-laged na fi ar ol y ffleit o Orlando... basa fo ddim yn saff i ti yrru... Wedyn, dyma fo'n mynd nol dros y ddamwain...Ma'r stryd wedi 'i goleuo yn glir...Dim ceir eraill ar y ffordd...Sut yn y byd mawr weloch chi ddim o Dr Richard Allen?

Arwyn - Beth ddwedest ti?

Jenny - Deud fod Dr Allen – a oedd yn amlwg yn feddw – wedi neidio o flaen y car. Ond pam stopioch chi ddim am wyth can llath, Mrs Saunders? 'Achos mod i wedi panicio...'

Arwyn - Oedd y plisman yn dy gredu di?

Jenny - Na. Aeth o dros y statement eto...a wedyn dyma fo'n deud bod witness statement...Merch ifanc, nyrs...

Arwyn - Wendy Keating oedd gyda Richard Allen...

Jenny - Ia. Hi.

Arwyn - Beth oedd hi wedi'i ddweud yn gwmws?

Jenny - Dwedodd y polis,: 'Mae hi bron yn siwr mai ddim chi oedd yn gyrru'r car ond eich gwr chi, Mr Saunders.'

Arwyn - A beth ddwedest ti?

Ysbyty Brynaber: Episode 9

Wendy Keating has been called to see Ward Sister Agnes Rees. Agnes has received a complaint that the young nurse has been rude to one of the patients – ex-bank manager Percy Edwards

Jenny is concerned that the truth about the accident might well be revealed by Wendy Keating. Arwyn however has other plans...

Geirfa

diddordeb	-	interest
argymhellion	-	recommendations
pesychu	-	to cough
annwyd	-	a cold
amharchus	-	disrespectful
siwio	-	to sue
dirwy	-	fine
carchar	-	prison
diddordeb	-	interest
argymhellion	-	recommendations
pesychu	-	to cough
annwyd	-	a cold
amharchus	-	disrespectful
siwio	-	to sue
dirwy	-	fine
carchar	-	prison

Golygfa 1

Agnes - 'Dewch i mewn.....

Wendy - 'Dach chi isio gweld fi, Sister?

Agnes - Ydw, Wendy...Dewch i mewn...'Steddych...Sori. Oes ots da chi? Ond mae'n jyst rhaid i fi orffen yr adroddiad 'ma...'Falle fod e o ddiddordeb i chi...'Student incentive: planning and implementation.' Rhyw hanner dwsin o argymhellion ydyn nhw...

Wendy - Sori?... Argy-be?

Agnes - Argymhellion. Recommendations.

Wendy - Ah. Reit. Big word.

Agnes - Ydy. Tipyn o lond ceg yn 'dyw e?

Wendy - Argymhellion. Must remember that...

Agnes - Beth sy', Nyrs Keating? Peswch?

Wendy - Sori?

Agnes - Ych chi'n pesychu...Wedi dal y byg annwyd 'ma sy' o gwmpas y lle?

Wendy - Na...

Agnes - Rhaid bo' chi'n meddwl pam y galwes i chi ma...? Oes rhyw syniad da chi?

Wendy - Can't say I have.

Agnes - Wedi cael cwyn ydw i – complaint o'r ward. Gan glaf sy'n dweud bo' chi wedi bod yn 'rude.'

Wendy - Don't tell me. Percy Edwards. The Zimmer framer.

Agnes - 'Sdim isie bod yn amharchus...

Wendy - I told him that if he didn't stop touching me, I'd have to report him. Well obviously he's got his retaliation in first, hasn't he?

Agnes - A dyna'ch ochor chi i'r stori?

Wendy - Dyna'r gwir.

Agnes - O'r gore.

Wendy - For all his bank manager airs and graces, underneath all that, he's a right old perv.

Agnes - O'r gore. Dyna ni. Dyna ddigon. Ga i air arall gyda Mr Edwards nawr. Diolch am ddod i ngweld i. Gewch chi fynd nawr, Nyrs Keating.

Golygfa 2

Jenny - Mae haul Fflorida yn edrych mor bell nôl dydi...?

Arwyn - Mmmm.
 Jenny - A'r Everglades...A'r crocodeils. A'r gwres...Ti'n cofio?
 Arwyn - Roedd y gwres yn ormod i fi...Rhy dwym...Ddwedodd y polis pryd maen nhw'n mynd i'n holi i?
 Jenny - Na...
 Arwyn - Siwr?
 Jenny - Ddeudon nhw ddim byd...
 Arwyn - Ond ma' nhw'n bownd o 'neud? Maen nhw'n bownd o 'neud! Go dam! Pam oedd rhaid i rywbeth fel hyn ddigwydd? Yr idiot meddw 'na... 'Drycha...O.K...Beth am roi hyn mewn perspectif? Damwain. Dyna beth oedd hi, ontefe? A Richard Allen oedd ar fai. Fo wnaeth achosi'r ddamwain. Fe oedd yn sefyll yn ganol y ffordd... Idiot!
 Jenny - Ond wnest ti ddim ei weld o, Arwyn! Wnest ti ddim 'i weld o! A pam? Am fod ti wedi blino!
 Arwyn - Ond mae e'n iawn.
 Jenny - Mae o wedi torri'i goes.
 Arwyn - Mae e'n iawn, Jen.
 Jenny - Allet ti fod wedi'i ladd o.
 Arwyn - Ond nes i ddim!
 Jenny - Be tasa fo'n siwio ni?
 Arwyn - Fyddden i'n siwio fe nôl yn syth.
 Jenny - Fasa gen ti ddim gobaith.
 Arwyn - Ond neiff e ddim!
 Jenny - Os bydd y gwir yn dod allan ...Mai ti oedd yn dreifio – a dim fi. Beth wedyn? Allen ni gael dirwy, carchar...
 Arwyn - Carchar? Na...!
 Jenny - Dydy o ddim yn amhosib. Ddim os bydd Nyrs Keating yn cadw at 'i stori. Beth wnei di wedyn, Arwyn?
 Arwyn - Wy wedi cael syniad. Stiwdent nyrs yw hi...Dw i'n hanner 'i nabod hi...
 Jenny - Wyt ti?
 Arwyn - Ydw. Wel, wy wedi cwrdd â hi ambell waith ...Ond fe allwn i ddod i 'nabod hi'n well...A dw i'n siwr y bydde hi'n gweld sens taswn i'n siarad 'da hi'n onest am beth ddigwyddodd...

Synopsis

After an evening in the pub Dic was struck down by a car driven by Arwyn Saunders. His injuries were not too serious – a broken leg.

Arwyn has persuaded his wife Jenny to tell the police that she was driving the car when Dic Allen was struck down.

After her visit to the police station Jenny tells Arwyn that a witness – Nurse Wendy Keating - was convinced that it was a man driving the car and not a woman.

Arwyn says that he knows Wendy Keating and that she might see sense if he explained to her what actually happened.

Test yourself

1. Translate 'Why are you smiling?' into Welsh
 - a) Pam rydych chi'n chwerthin
 - b) **Pam wyt ti'n gwenu?**
 - c) Pam wyt ti'n chwerthin?
2. Translate 'He snores like a pig' into Welsh
 - a) Mae e'n gwenu fel cath
 - b) Mae e'n chwerthin fel ffwl
 - c) **Mae e'n chwyrru fel mochyn**
3. Which of the following translates as 'to tell lies'?
 - a) dweud y gwir
 - b) **dweud celwydd**
 - c) dweud popeth
4. What's the Welsh in South Wales for 'exactly'?
 - a) yn wir
 - b) **yn gwmws**
 - c) yn hollol
5. What's the Welsh verb for 'to lie down'?
 - a) sefyll
 - b) gweiddi
 - c) **gorwedd**
6. How could we translate the Welsh phrase; 'eight hundred yards'?
 - a) wyth llath
 - b) **wyth can llath**
 - c) wyth mil llath